# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-18-06(p4)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Llewyrchus.

Mesurau i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer lleoli, iechyd addysg a lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a newidiadau i'r comisiynydd cyfrifol dros ofal iechyd eilaidd i blant diamddiffyn a leolir oddi cartref

**Diben**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried deddfwriaeth arfaethedig a gaiff ei hystyried gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror 2007, o dan Reol Sefydlog 24, i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer lleoli, iechyd a lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Gwahoddir y Pwyllgor hefyd i ystyried a yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig, a ategir gan ganllawiau statudol, yn ddigon cadarn i gyflawni'r ymrwymiadau a wneuthum mewn adroddiad dichonoldeb a drafodwyd mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin o dan reol sefydlog 31.2. Roedd y rhain yn ymdrin ag agenda ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd, addysg a lles a sicrhau gwell canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.

**Crynodeb**

2. Mae'r Pwyllgor wedi nodi'r offerynnau ar gyfer craffu. Noda’r aelodau y bydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chyllid hefyd yn trafod yr offerynnau ym mis Ionawr 2007. Disgwylir i'r ddadl derfynol ddigwydd mewn Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror 2007, gyda dyddiad gweithredu arfaethedig o 1 Gorffennaf 2007 ar gyfer y rheoliadau a'r canllawiau.

3. Ym mis Medi 2006, ysgrifennais at holl Aelodau'r Cynulliad, gan amgáu copi o'r ddogfen ymgynghori, yn amlinellu ein cyfrifoldeb corfforaethol dros blant sy'n derbyn gofal ac yn eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Mae aelodau'r pwyllgor, felly, wedi cael cyfle i weld y rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol ar gam cynnar.

4. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Tachwedd 2006. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r newidiadau arfaethedig ac ystyriwyd eu bod yn sbardun i wella prosesau a chanlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Rhoddodd llywodraeth leol yn arbennig groeso i ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Plant 2004 i atgyfnerthu dyletswyddau asiantaethau addysg ac iechyd tuag at blant sy'n derbyn gofal.

5. Mae adroddiad cryno o'r ymgynghoriad yn amgaeëdig. Mae'r rheoliadau a'r papur ger eich bron heddiw yn ymgorffori newidiadau i adlewyrchu canlyniadau o'r ymgynghoriad a newidiadau technegol gan gyfreithwyr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

6. Bydd y Pwyllgor yn nodi hefyd ein bod wedi manteisio ar y cyfle i lunio rheoliadau i Gymru yn unig o fewn dau faes i atgyfnerthu'r rheoliadau ac adlewyrchu'r ymagwedd at y meysydd hyn, sy'n unigryw i Gymru. Bydd gennym deulu o reoliadau yng Nghymru o ran prif gorff yr is-ddeddfwriaeth i blant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn rhoi eglurhad o'r maes cymhleth hwn a gaiff ei reoleiddio'n llym er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol ac eraill i gael dealltwriaeth glir o'u dyletswyddau statudol tuag at blant sy'n derbyn gofal. Efallai y caiff y rheoliadau eu mireinio ynmhellach o safbwynt technegol, ond mae'r offerynnau statudol a gyflwynir i chi heddiw yn adlewyrchu polisi Llywodraeth y Cynulliad ar y mesurau terfynol yr ydym am eu cyflwyno yn 2007.

7. Mae wedi bod yn ofynnol newid pedair cyfres o reoliadau a llunio canllawiau statudol cynhwysfawr er mwyn sicrhau'r amryw newidiadau yr hoffem eu cyflwyno.

8. Am y tro cyntaf, rydym yn defnyddio pwerau newydd o dan Ddeddf Plant 2004, i gyfarwyddo awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd o ran y dyletswyddau y mae’n rhaid iddynt ymgymryd â hwy i gyflawni eu swyddogaethau statudol i wella iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal. Nod y newidiadau yw sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud ar sail 'budd' y

plentyn, y caiff lleoliadau eu gwneud yn agos at gartref y plentyn ac o fewn eu cymuned pan fo hynny'n bosibl (oni bai fod risg i'r plentyn) ac y cydgysylltir trefniadau rhwng asiantaethau ac y cânt eu cyflawni gan bobl allweddol a nodir. Nod y newidiadau yw sicrhau mwy o atebolrwydd a chraffu ar bob lefel ar draws llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd o ran diwallu eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol dros blant sy'n derbyn gofal. Amlinellir y meysydd allweddol o newidiadau isod.

## Lleoli ac Ystyriaethau Iechyd

9. Mae'r rheoliadau ynglyn â lleoli yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd eu hystyried wrth leoli plentyn. Mae'r rheoliadau yn gosod dyletswyddau newydd ar yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei ystyried a'r bobl a ddylai gymryd rhan yn y cynlluniau cyn lleoli plentyn a'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd y rheoliadau yn gofyn am fwy o ystyriaeth o anghenion iechyd ac addysg y plentyn, yn arbennig o ran unrhyw anghenion iechyd meddwl a fydd gan y plentyn a'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

10. Bydd angen i awdurdodau lleol sydd am leoli plentyn y tu allan i'r ardal lle mae'n arfer byw gyda'i rieni naturiol/gofalwyr gynnull panel o uwch reolwyr o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, y gwasanaeth addysg a'r bwrdd iechyd lleol (BILl). Pan fo'n briodol, dylai'r panelau gynnwys gweithwyr proffesiynol megis pediatryddion a seicolegwyr addysgol.

11. Mae'r rheoliadau yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnull panel o fewn 25 diwrnod gwaith ar gyfer plentyn a leolwyd y tu allan i'r ardal mewn achos brys. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn nodi'r ystyriaethau y mae'n rhaid i'r panel eu trafod wrth benderfynu lleoli plentyn y tu allan i'r ardal. Mae'r canllawiau yn cydnabod y bydd modelau panel gwahanol yn gweithredu yn dibynnu ar drefniadau lleol ac amgylchiadau penodol pob achos. Fodd bynnag, nid oes eithriad rhag cynnull panel, hyd yn oed mewn achosion syml.

12. Mae'r rheoliadau yn gosod y cyfrifoldeb ar bennaeth y gwasanaeth i gofnodi rhesymau dros leoliadau brys, i wneud datganiad dros yr amgylchiadau a arweiniodd at y penderfyniad dros leoli plentyn y tu allan i'r ardal a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig i aelod arweiniol statudol yr awdurdod dros wasanaethau plant a phobl ifanc ar niferoedd ac amgylchiadau'r lleoliadau hynny. Rhaid cadw copi o'r penderfyniad gyda chofnod achos y plentyn. Caiff y gofrestr o'r manylion y dylai awdurdod lleol eu cadw am bob plentyn sy'n derbyn gofal ei hymestyn i gynnwys rhif adnabod Gwasanaeth Iechyd Gwladol y plentyn a'i rif adnabod gwasanaethau cymdeithasol ac os yw'r plentyn i gael ei leoli mewn cartref plant, dylai hefyd gynnwys enw gweithiwr cyswllt dynodedig yn y cartref. Er mwyn cynorthwyo darparwyr gofal iechyd i gyflawni eu cyfrifoldebau dros ofal iechyd y plentyn, rhaid i'r awdurdod ddarparu'r wybodaeth berthnasol o'u cofrestr o bob plentyn a leolir y tu allan i'r ardal i'r BILl sy'n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd y plentyn.

13. Mae'n ofynnol i bob plentyn sy'n derbyn gofal gael asesiad iechyd statudol wrth ddechrau ar eu cyfnod mewn gofal ac yn flynyddol, neu ddwywaith y flwyddyn wedi hynny i blant o dan 5 oed. Mae'r gofynion ychwanegol yn y rheoliadau yn ymestyn y cyfrifoldeb dros gynnal yr asesiad iechyd cyntaf i nyrs gofrestredig ac yn galw am asesiadau amlach os yw hynny'n briodol am les y plentyn. Rhaid cynnal asesiadau iechyd cyn y lleoliad pan fo hynny'n bosibl ac mae'r rheoliadau yn gosod terfyn amser o ddim mwy na 14 diwrnod o ddyddiad y lleoliad ar gyfer trefnu asesiad iechyd. Rhaid anfon copïau o'r asesiad iechyd i feddyg teulu'r plentyn er mwyn sicrhau bod y cofnod iechyd yn gywir ac yn ddiweddar.

14.Er mwyn sicrhau y caiff cofnodion iechyd ac addysg y plentyn eu trosglwyddo'n gyflym, mae'r rheoliadau yn gosod terfyn amser o 10 diwrnod i'r awdurdod hysbysu'r darparwyr iechyd penodol yn yr ardal lle y lleolir y plentyn. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion iechyd y plentyn gael eu trosglwyddo ac yn gosod dyletswydd barhaus ar yr awdurdod i fonitro'r trosglwyddiad hwnnw. Dim ond ar ôl i'r cofnodion gael eu trosglwyddo y gellir ymgymryd â'r ddyletswydd honno. Mae terfyn amser o 10 diwrnod hefyd ar gyfer cofrestru'r plentyn gyda'r meddyg teulu a 25 diwrnod ar gyfer sicrhau y gall y plentyn weld deintydd.

15. Mae'r canllawiau statudol sy'n ategu'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofyniad cadarnhaol i BILlau ddynodi ymarferydd iechyd arbenigol (a mwy nag un yn dibynnu ar nifer y plant sy'n derbyn gofal) i gydgysylltu elfen iechyd cynllun gofal plant sy'n derbyn gofal (a'r cynllun llwybr i'r rhai sy'n gadael gofal) a mynd i'r afael â'u hiechyd cyfannol.

## Adolygiad o Achosion Plant

16. Ers mis Medi 2004 mae wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) i wella dulliau diogelu plant o ran adolygu eu cynllun gofal. Mae'r Swyddog yn goruchwylio'r broses adolygu, yn cadeirio'r cyfarfod

adolygu ac mae'n ddyletswydd benodol arno i sicrhau bod plant ac oedolion allweddol yn eu bywydau yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a bod y cyfarfodydd yn digwydd yn unol â'r amseroedd statudol er mwyn cyfyngu ar lithriadau a herio arfer gwael.

17. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau hyn yn atgyfnerthu ymhellach rôl y Swyddog ac yn ymestyn ei ddyletswyddau i gynnwys sicrhau bod y plentyn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu a gall weld deintydd, monitro'r gwaith o drosglwyddo cofnodion iechyd ac addysg y plentyn a sicrhau bod y plentyn yn cael gwasanaethau ar gyfer unrhyw anghenion iechyd meddwl a aseswyd.

18. O ran plant a leolir mewn cartrefi plant, o dan y rheoliadau newydd, rhaid i'r Swyddog gynnwys y 'gweithiwr cyswllt' statudol yn yr adolygiad o achos y plentyn. Mae'r rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd barhaus ar y Swyddogion i fonitro'r trefniadau hyn (ac i'r awdurdod lleol hysbysu'r Swyddog o unrhyw newidiadau yng nghynllun gofal y plentyn) a gweithredu er budd y plentyn. Pan fo'r Swyddog o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi methu gweithredu er budd y plentyn, o dan y darpariaethau presennol gall y Swyddog gyfeirio achos y plentyn at Wasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru.

## Cartrefi Plant

19. Mae diwygiadau i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 yn cyflwyno newid sylweddol o ran gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a gaiff plant yn y lleoliadau hyn. Caiff Cartrefi Plant eu cofrestru gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC). O 1 Gorffennaf 2007, er mwyn i gartref gael ei ystyried yn 'addas at y diben' bydd angen iddo fod wedi bodloni gofynion newydd eu rhagnodi o ran; canran y staff sy'n gyflogeion parhaol a chyfnod o amser i reolwyr (Tachwedd 2007) a staff (Mawrth 2008) gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru (y Cyngor) a meddu ar gymhwyster perthnasol ar restr sydd gan y Cynulliad ac a gynhelir gan y Cyngor.

20. Mae'r rheoliadau yn darparu cyfnod o dair blynedd o'r dyddiad dod i rym (Gorffennaf 2007) i staff gael y cymwysterau ar y rhestr, a gofyniad i 80% o'r staff feddu ar y cymhwyster perthnasol erbyn 2010. Rhaid i reolwyr (mewn cartrefi presennol neu gartrefi newydd a gofrestrir wedi mis Gorffennaf 2007) feddu ar y cymhwyster perthnasol erbyn mis Tachwedd 2007.

21. Bydd methu â chydymffurfio â'r rheoliadau yn golygu y caiff y cartref plant ei ystyried yn anaddas i'w gofrestru. Efallai y caiff cartrefi presennol sy'n methu â chyflawni'r gofynion erbyn y dyddiad rhagnodedig eu dadgofrestru yn dilyn arolygiad a chamau gorfodi gan ASGC. Bydd yn ofynnol i bob cartref plant ddynodi 'gweithiwr cyswllt' i gefnogi pob plentyn a gweithredu er budd y plentyn hwnnw. Yn ogystal, byddant yn ymgymryd â dyletswyddau penodol a nodir yn y rheoliadau a'r canllawiau gan gynnwys cyfrannu at addysg ac iechyd y plentyn a chymryd rhan mewn adolygiad o gynllun gofal y plentyn.

22. Mae'n ofynnol i'r gweithiwr cyswllt feithrin cysylltiadau cryf â nyrs a chydgysylltydd addysg dynodedig y plentyn. Mae'r rheoliadau yn gosod dyletswyddau penodol ar y gweithiwr cyswllt i fonitro trefniadau megis sicrhau bod y plentyn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu lleol, y gall weld deintydd, bod y trefniadau cynllun addysgol personol (PEP) ac addysg yn effeithiol ac ati. I gydnabod rôl allweddol a statws y gweithiwr cyswllt ym mywyd y plentyn, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr cyswllt gael ei gofnodi ar gofrestr yr awdurdod lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Addysg

23. Mae newidiadau i'r rheoliadau ynglyn â lleoli yn rhoi mwy o bwyslais ar yr hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei ystyried cyn lleoli plentyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn diwallu anghenion addysgol y plentyn a'u hyrwyddo, yn arbennig unrhyw anghenion addysgol arbennig. Gosodir terfyn amser o 10 diwrnod ar drosglwyddo cofnodion addysgol y plentyn ynghyd â'r cynllun addysgol personol (PEP).

24. Gan ddefnyddio darpariaethau o dan Ddeddf Plant 2004 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi ymarferydd arbenigol (cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal) i gydgysylltu cynllun addysgol y plentyn a mynd i'r afael ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal. Caiff dyletswyddau'r ymarferydd penodedig eu hymestyn i'r rhai sy'n gadael gofal. Bydd gan yr ymarferydd ddyletswyddau penodol i gyfrannu i gynllun llwybr y person ifanc i sicrhau y cânt eu cynnal a'u hannog i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd addysgol gan gynnwys mynediad i addysg bellach ac uwch a hyfforddiant pan fo hynny'n briodol. Mae'r canllawiau yn rhoi cyfarwyddyd cynhwysfawr ar rôl yr ymarferydd dynodedig o ran hyrwyddo a darparu prosesau o safon a chymorth o ran addysg plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

**Comisiynydd Cyfrifol**

25. Mae newidiadau mewn rheoliadau yn gwyro oddi wrth y rheol arferol ynglyn â phreswylio yng Nghymru, h.y. yng Nghymru Byrddau Iechyd Lleol (BILl) sy'n gyfrifol am iechyd a lles eu poblogaeth leol. Mae'r newidiadau'n ymwneud â dyletswydd y BILl i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd eiliad i blant sy'n derbyn gofal a phlant diamddiffyn eraill megis y rhai a gaiff eu lleoli oddi cartref mewn ysgolion preswyl neu am resymau iechyd.

26. O fis Gorffennaf 2007, bydd y BILl gwreiddiol (mewn achos lleoliad lle mae'r prif ffocws ar ofal cymdeithasol neu addysg) neu y BILl sy'n trefnu'r lleoliad (mewn achos lleoliad lle mae'r prif ffocws ar ofal iechyd) (y cyfeirir atynt ar y cyd fel BILl gwreiddiol) yn parhau i fod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd eiliad i grwpiau penodol hyd at 21 mlwydd oed, gan gynnwys plant a leolir yn Lloegr. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir bod costau gofal iechyd eilaidd yn cynnwys costau asesiadau iechyd statudol plant sy'n derbyn gofal.

27. Mae'r canllawiau hefyd yn sefydlu proses newydd o ddatrys anghydfod mewn tri cham i atgyfnerthu atebolrwydd a thryloywder. Gosodir dyletswyddau newydd ar Swyddog Arweiniol y BILl statudol dros wasanaethau plant a phobl ifanc (o dan Ddeddf Plant 2004) i ddatrys anghydfod yn lleol ( o fewn 4 wythnos) a rhaid dwyn unrhyw achos i lefel ranbarthol neu genedlaethol drwy'r broses briodol, yn dilyn trafodaethau. Os na cheir cytundeb lleol, bydd Swyddfeydd Rhanbarthol y GIG yn rhoi adroddiad manwl (ac ateb arfaethedig) i Bennaeth GIG Cymru i gael ei ystyried gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

28. Mae'r Adran Iechyd wedi datblygu darpariaethau cyfatebol i sicrhau bod Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol sy'n lleoli plant yng Nghymru yn talu costau gofal eilaidd. Mae'r Adran Iechyd yn ystyried y sefyllfa drawsffiniol ar hyn o bryd o ran lleoliadau yng Nghymru ac mae wedi nodi y gallai ei Reoliadau gael eu gohirio rhag dod i rym ar 1 Ionawr 2007 fel y bwriadwyd. Mae swyddogion mewn trafodaethau gyda chyd-swyddogion yn yr Adran Iechyd a byddant yn hysbysu'r Pwyllgor o'r diweddaraf cyn gynted ag y cytunir ar y ffordd ymlaen. Ar y sail honno, mae lle i fân ddiwygiadau i'r Rheoliadau yn y maes hwn, i sicrhau bod darpariaethau Cymru a Lloegr yn cydweddu â'i gilydd cymaint â phosibl a sicrhau bod dwyochredd o ran lleoliadau trawsffiniol. Caiff y rhain eu cyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**Ystyriaethau**

29. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau gwelliannau i'r trefniadau lleoli a'r trefniadau iechyd ac addysg i blant sy'n derbyn gofal, gwelliannau y mae eu hangen yn ddirfawr. Bydd yn sicrhau mwy o rym ac atebolrwydd i'r broses. Gosodir y seiliau ar gyfer ffordd newydd o weithio o fewn yr amgylchedd partneriaeth, gan ymestyn cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ac atebolrwydd dros wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ar draws yr holl asiantaethau. Mae rhianta corfforaethol yn fusnes difrifol. Rhaid rhoi'r flaenoriaeth a'r ymrwymiad haeddiannol iddo.

**Goblygiadau Ariannol**

30. Mae'r ymgynghoriad wedi dangos ei bod yn debygol y bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth y newidiadau hyn. Sicrhawyd adnoddau ychwanegol o £5.6 m i lywodraeth leol drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2007/08 i gydnabod y pwysau ym maes gofal maeth a lleoli a nodwyd yn adroddiad yr Is-grwp Gwariant.

**Camau Gweithredu i'r Pwyllgor Pwnc**

31. Gwahoddir y Pwyllgor i graffu ar y ddeddfwriaeth arfaethedig y bwriedir iddi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer lleoli, iechyd a lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn benodol, gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw'r cynigion, a ategir gan ganllawiau statudol, yn ddigon cadarn i gyflawni'r ymrwymiadau a wneuthum mewn adroddiad dichonoldeb a drafodwyd mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin o dan reol sefydlog 31.2.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Person Cyswllt: Donna Davies Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant, ffôn 029 2082 6844

**I: Y Pwyllgor Busnes**
**Gan: Brian Gibbons AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

## Memorandwm Eglurhaol

## Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru

1. Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

2. Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

3. Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007

4. Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiwyd) 2007

## Crynodeb

Mae'r rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 a Rheoliadau Adolygu Achosion 1991 mewn perthynas â Chymru, gan gyflwyno rheoliadau i Gymru yn unig. Maent yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 a Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003. Mae'r newidiadau a wneir i'r rheoliadau hyn yn cydberthyn a dylid eu hystyried fel pecyn i'w gyhoeddi ynghyd â chanllawiau statudol o dan Ddeddf Plant 2004.

Mae'r rheoliadau hyn yn cryfhau trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer lleoli plant, gan ystyried anghenion iechyd ac addysgol plant yn arbennig. Bydd yn rhaid i awdurdodau sy'n dymuno lleoli plentyn y tu allan i ddalgylch cartref y plentyn ymgynnull panel yn gyntaf i ystyried p'un a yw'r lleoliad yn addas ac er budd gorau'r plentyn, yn ogystal â sut y gellir cefnogi'r lleoliad yn y ffordd orau. Mae'n rhaid hysbysu prif arweinydd y gwasanaethau plant o niferoedd ac amgylchiadau achosion o'r fath. Maent yn gosod cyfyngiadau amser y mae'n rhaid i hysbysiadau o leoliadau, trefniadau ar gyfer asesiadau iechyd, cofrestru â meddyg a chael gafael ar ddeintydd fod ar waith. Maent yn gosod cyfrifoldeb ar yr awdurdod i sicrhau bod cofnodion iechyd ac addysg y plentyn yn cael eu trosglwyddo pan fydd plentyn yn symud lleoliad.

Estynnir y cyfrifoldeb dros ymgymryd ag asesiadau iechyd cychwynnol a pharatoi adroddiad ysgrifenedig i nyrs gofrestredig ac mae'n rhaid anfon copïau o'r asesiadau at feddyg teulu'r plentyn. Mae'n rhaid i asesiadau iechyd ystyried anghenion iechyd meddwl y plentyn yn arbennig ac mae'n rhaid iddynt ddigwydd yn amlach nag amserlenni statudol presennol os bydd iechyd meddwl y plentyn yn pennu hynny. Rôl yr IRO yw sicrhau bod y plentyn wedi cofrestru â meddyg teulu, y gall gael gafael ar ddeintydd, bod cofnodion iechyd ac addysg wedi'u trosglwyddo a bod unrhyw anghenion iechyd meddwl a nodwyd yn cael eu diwallu.

Mae'r rheoliadau yn ei wneud yn ofynnol i reolwyr a staff cartrefi plant i gofrestru â Chyngor Gofal Cymru a meddu ar gymhwyster perthnasol erbyn dyddiad a fanylwyd. Yn ogystal, mae'n rhaid i gartrefi plant enwebu gweithiwr cyswllt i gydlynu a chodi proffil iechyd ac addysg y plentyn wrth gydgysylltu â gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol. Mae'n rhaid cynnwys manylion y gweithiwr cyswllt ar gofrestr manylion y plentyn a gaiff ei chynnal gan yr Awdurdod Cyfrifol.

Ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli i ffwrdd o'u dalgylch cartref (yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant sâl mewn ysbytai annibynnol a phlant â datganiad o anghenion addysgol arbennig) hyd at 21 oed, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol cychwynnol yn gyfrifol am ddarparu adnoddau i'r gwasanaeth gofal iechyd eilaidd. Ehangir y dyletswyddau hyn i blant mewn ymddiriedolaeth gofal sylfaenol yn Lloegr. Gwneir trefniadau cyfatebol gan yr Adran Iechyd i'w wneud yn ofynnol bod ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn parhau i ddarparu adnoddau i'r ddarpariaeth iechyd eilaidd ar gyfer plant a leolir dros y ffin yng Nghymru.

1. Cyflwynwyd y Memorandwm hwn i Bwyllgor Busnes y Cynulliad mewn perthynas â Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007, Rheoliadau Adolygiad Achosion Plant (Cymru) 2007, Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2006 a Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiwyd) 2007 yn unol â Rheol Sefydlog 24.

2. Cyflwynir copi o'r Offerynnau gyda'r Memorandwm hwn.

## Pwer Galluogi

**Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007**

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Offeryn hwn i gael ei wneud wedi'u cynnwys yn adrannau 23(2)(a), (f)(ii) a (5), 59(2) a (3), 104 (1) a (4) o baragraff (12), (13) a (14) Atodlen 2, paragraff 4(1)(a) Atodlen 4, paragraff 7(1)(a) Atodlen 5 a pharagraff 10(1)(a) Atodlen 6 Deddf Plant 1989.

Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

26(1), (2), (2A) a (2B), 59(4)(a) a (5) a 104(1) a (4), a pharagraffau 10(1) a (2)(l) Atodlen 6 Deddf Plant 1989.

**Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2007**

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Offeryn hwn i gael ei wneud wedi'u cynnwys yn Adrannau 1(4), 22(1), (2)(a) i (d), (f) i (j), 5(a) a (c), 7(a) i (h), (j), (8)(c), 25(1), 33, 34(1), 35, 118 (5) i (7) Deddf Safonau Gofal 2000

Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiwyd) 2007

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Offeryn hwn i gael ei wneud wedi'u cynnwys yn Adrannau 16BB a 126(4) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Trosglwyddwyd y pwerau uchod i gyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dirprwywyd y cyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â chynnwys y Rheoliadau hyn i'm portffolio fel Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Effaith**

Mae'r offerynnau hyn yn cyflwyno newidiadau i wella iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal. Trafodwyd a chymeradwywyd yr egwyddorion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin a chânt eu hamlinellu mewn adroddiad dichonoldeb ar 31 Mai.

Yr amcan cyffredinol yw cryfhau trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer lleoli plant ac adolygiad dilynol o achosion, gan sicrhau mai anghenion iechyd a lles ac addysg plant yw'r brif flaenoriaeth mewn unrhyw benderfyniadau a wneir. Bydd y newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o rwymedigaeth ar bartneriaid statudol i hyrwyddo iechyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud 'er budd' y plentyn; bod lleoliadau yn agos i gartref y plentyn pan fo'n bosibl a bod gwasanaethau yn cael eu cydlynu rhwng asiantaethau a'u cyflwyno gan weithwyr allweddol a nodwyd. Yn ogystal, mae'r rheoliadau yn egluro a gwella trefniadau ar gyfer darpariaeth gofal iechyd eilaidd i blant yn defnyddio sy'n agored i niwed a leolwyd i ffwrdd o'u dalgylch cartref.

Bydd y newidiadau yn cyflwyno gwelliannau sydd eu mawr angen i'r trefniadau lleoli iechyd ac addysg i blant sy'n derbyn gofal ynghyd â gwell atebolrwydd a chraffu i'r broses a bydd yn ehangu cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol y tu hwnt i lywodraeth leol.

Dylai'r gofynion newydd a nodir yn y rheoliadau a'r canllawiau o dan Ddeddf Plant 2004 o ran asesiadau iechyd, olrhain, trosglwyddo a monitro cofnodion, cofrestru â meddyg teulu, cael gafael ar ddeintydd a mwy o bwyslais ar iechyd yn y broses asesu, lleoli ac adolygu ynghyd â phenodi nyrsys dynodedig i oruchwylio'r broses, wella canlyniadau iechyd plant sy'n derbyn gofal. Dylai canolbwyntio'n fwy ar nodi a diwallu anghenion iechyd meddwl plant arwain at nodi ac ymyrraeth gynnar i atal problemau rhag gwaethygu.

Yn yr un modd o ran addysg, rhoddir mwy o sylw i anghenion addysgol plant ac yn benodol unrhyw anghenion addysgol arbennig fel rhan o'r ystyriaethau lleoli ac adolygu. Bydd y gofyniad i benodi person dynodedig i hyrwyddo addysg y plentyn neu'r person ifanc ac yn cydlynu'r gwaith o drosglwyddo cofnodion addysg ac ati yn annog dyheadau i blant sy'n derbyn gofal, hyrwyddo dysgu gydol oes a gwella'r cyfle i fynd i addysg bellach ac addysg uwch.

Bydd gofynion newydd i gartrefi plant yn codi safonau ac yn gwella ansawdd gofal yn y lleoliadau hyn ac yn cyfrannu at weledigaeth y Cynulliad o weithlu plant cymwys a gwerthfawr fel bod gofal preswyl yn dod yn broffesiwn cadarnhaol o ddewis. Bydd rheoleiddio safonau galwedigaethol hefyd yn cryfhau dyletswyddau archwilio a gorfodi'r Arolygiaeth Safonau

Gofal. Dylai'r rheoliadau arwain at well broses recriwtio a chadw staff a rhoi llwybrau gyrfa a sefydlogrwydd i staff a rheolwyr cartrefi plant. Yn ogystal, byddant yn sicrhau gwell ymrwymiad gan reolwyr i gefnogi dysgu gydol oes.

Bydd ehangu dyletswyddau IRO yn sicrhau gwell atebolrwydd ar awdurdodau a phartneriaid iechyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol o ran cynllunio gofal i'r plentyn.

Mae newidiadau i'r comisiynydd cyfrifol yn ymadael â'r rheolau preswyl arferol a byddant yn dileu unrhyw gymhelliant i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i leoli plant y tu allan i'w dalgylch cartref er mwyn trosglwyddo costau. Bydd y newidiadau yn lleihau anghydfodau costus a hirwyntog dros bwy sy'n talu, gan hyrwyddo penderfyniadau cyflym a chyflwyno her i'r system i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion plant. Bydd y newidiadau hefyd yn annog BILlau i ddatblygu gwasanaethau arbenigol yn lleol i ateb bylchau yn y ddarpariaeth, pan yn briodol. Bydd y newidiadau hyn yn fanteisiol i blant sy'n derbyn gofal a grwpiau eraill sy'n agored i niwed ac yn sicrhau parhad gofal.

## Y Targed o ran Gweithredu

Bwriedir gwneud yr Offerynnau hyn ar 6 Chwefror 2007 a'u bod yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2007. Bydd y darpariaethau o ran cartrefi plant mewn rhai ardaloedd yn dod i rym yn ddiweddarach.

I fynd i'r afael â materion traws-ffiniol o ran y comisiynydd cyfrifol, mae'r Cynulliad a'r Adran Iechyd wedi cysoni newidiadau sy'n bwriadu dod i rym yn Lloegr ddechrau 2007.

## Goblygiadau Ariannol

Mae ymgynghoriad wedi nodi ei bod yn debygol y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn ond credwn y bydd y rhain yn ymylol. Rhyddhawyd adnoddau ychwanegol i lywodraeth leol trwy Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2007/08 (£5.6 m) gan gydnabod pwysau ym meysydd gofal maeth a lleoliadau a nodwyd yn adroddiad yr Is-grwp Gwariant. Bydd rheoliadau yn gwneud newid o brosesau busnes a rheoli marchnata lleoliadau yn ofynnol ac yn y tymor hwy bydd yn arwain at arbedion. Mae swyddi dynodedig fel Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a Nyrsys arbenigol wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac fe'u hariennir gan awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd.

## Arfarniad Rheoliadol

Cynhaliwyd Arfarniad Rheoliadol o ran yr Offeryn hwn ac mae wedi'i atodi.

## Ymgynghoriad

## Gyda Rhanddeiliaid

Roedd y Rheoliadau drafft yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos rhwng 18 Medi 2006 a 13 Tachwedd 2006. Atodir rhestr o ymgyngoreion yn Atodiad 1 i'r Arfarniad Rheoliadol. Derbyniwyd 62 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys 19 gan awdurdodau lleol, 23 gan gyrff iechyd, 2 gan gartrefi plant, 10 gan y sector gwirfoddol ac 8 gan eraill. Atodir rhestr o ymatebion yn Atodiad 2 i'r Arfarniad Rheoliadol. Roedd yr holl ymatebion yn gyffredinol yn gefnogol i'r newidiadau a gynigiwyd gan y Rheoliadau drafft ac awgrymwyd y diwygiadau canlynol. Yn ogystal, cynhaliodd y Cynulliad dri digwyddiad ymgynghori ym mis Hydref. Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan dros 300 o ddirprwyon yn cynnwys aelodau etholedig a phob sector.

O ganlyniad uniongyrchol i'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r rheoliadau wedi diwygio ar ôl hynny i estyn y dyddiad cau y mae'n rhaid i baneli ymgynnull i ystyried lleoliadau y tu allan i'r sir, i leihau'r baich ar awdurdodau lleol a'u partneriaid. Rydym hefyd wedi estyn yr amser y mae'n rhaid i staff mewn cartrefi gofal gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru chwe mis i alluogi staff i gwblhau'r broses sefydlu. Yn ogystal, rydym wedi ehangu'r dyddiad cau y mae'n rhaid trefnu cael gafael ar ddeintydd.

## Gyda'r Pwyllgorau Pwnc

Hysbyswyd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r Rheoliadau hyn (HSS 41(06), y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus LGPS (2)- 17 06 (p) trwy'r rhestrau priodol o ddeddfwriaeth sydd ar ddod, ar 13 Gorffennaf 2006). Cawsant eu nodi ar gyfer craffu manwl yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Gweithdrefn a Argymhellir

Yn amodol ar farn y Pwyllgor Busnes, rwy'n argymell bod y Rheoliadau hyn yn mynd ymlaen i'r Cyfarfod Llawn o dan y weithdrefn Safonol, er mwyn i Aelodau gael cyfle pellach i ddadlau arnynt.

### Cydymffurfiaeth

Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig (cyhyd ag y bo'n gymwys):

- yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb (Deddf Llywodraeth Cymru 1998 Adran 120);
- yn gytûn â chynllun datblygu cynaliadwy y Cynulliad (adran 121);
- yn gytûn â Chyfraith Gymunedol (adran 106);
- yn gytûn â deddfwriaeth hawliau dynol y Cynulliad (adran 107);
- yn gytûn ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol sy'n rhwymo Llywodraeth y DU a'r Cynulliad (adran 108).

Cafwyd cytundeb yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol i'r wybodaeth yn y Memorandwm hwn.

Cysylltiadau Is-adran Polisi: Donna Davies, Jacqui Moyle, Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus Plant (Estyniadau 6844, 3101)

22. Pennaeth yr Is-adran: Keith Ingham - Estyniad 6746.

23. Cyfreithiwr Drafftio: Ian Pike - Estyniad: 6882, Michael Lubienski - Estyniad: 3913

**Brian Gibbons, AC Tachwedd 2006**
**Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

### Arfarniad Rheoliadol

Gwasanaethau Cymdeithasol A Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru

1. Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

2. Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

3. Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007

4. Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygiwyd 2007

### Diben ac effaith fwriadedig y mesur

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) (1991) a Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991 yng Nghymru ac yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 a Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003.

2. Mae'r offerynnau hyn yn cyflwyno newidiadau i wella iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal. Dadleuwyd a chymeradwywyd yr egwyddorion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin a chânt eu hamlinellu mewn adroddiad ymarferoldeb ar 31 Mai.

3. Byddant yn cryfhau trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer lleoli plant ac adolygiad o achosion plant dilynol, gan sicrhau mai anghenion iechyd a lles ac addysg plant yw'r brif flaenoriaeth mewn unrhyw benderfyniadau a wneir. Bydd y newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o rwymedigaeth ar bartneriaid statudol yn y broses hon. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud 'er budd' y plentyn, bod lleoliadau yn agos i gartref y plentyn, oni bai fod ystyriaethau risg neu les yn drech na hynny a bod gwasanaethau yn cael eu cydlynu rhwng asiantaethau a'u cyflwyno gan weithiwyr allweddol a nodwyd. Yn ogystal, mae'r rheoliadau yn egluro a gwella trefniadau ar gyfer darpariaeth gofal iechyd eilaidd i blant yn defnyddio sy'n agored i niwed a leolwyd i ffwrdd o'u dalgylch cartref.

### Asesu risg

4. Ni fyddai cymryd camau yn cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno mesurau i gryfhau lleoliadau a gwella iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal.

5. Bydd methu â newid trefniadau'r comisiynydd cyfrifol yng Nghymru i grwpiau plant sy'n agored i niwed wedi'u lleoli o'u cartref yn arwain at wahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr a thriniaeth anghyflawn mewn darpariaeth gofal iechyd i blant sy'n derbyn gofal a grwpiau eraill sy'n agored i niwed sydd wedi'u lleoli dros y ffin.

### Opsiynau

### Opsiwn 1: Gwneud Dim

Mae nifer o oblygiadau os na fyddwn yn gwneud unrhyw beth:

- Ni fyddem yn gweld y gwelliannau rydym yn dymuno eu cyflawni o ran iechyd, addysg a lles plant sy'n derbyn gofal.
- Bydd anghydraddoldebau o hyd o ran iechyd ac addysg a chanlyniadau plant sy'n derbyn gofal.
- Bydd llawer o blant yn parhau i gael eu lleoli i ffwrdd o'u cymunedau cartref.
- Bydd safonau ac ansawdd gofal mewn cartrefi plant yn parhau i fod yn wael.
- Ni fydd gan ASGC y pwerau angenrheidiol i orfodi safonau galwedigaethol yn effeithiol mewn cartrefi plant.
- Byddai peidio â chymryd camau ar drefniadau comisiynydd cyfrifol yn cymhlethu prosesau ac yn arwain at wahaniaeth a chymhlethdod yn y trefniadau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr.
- Ni fyddai'n darparu'r ysgogiadau a'r negeseuon a ddymunir o ran ehangu cyfrifoldebau rhiant corfforaethol i bartneriaid iechyd.
- Yn bwysicach, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn methu yn eu cyfrifoldebau rhiant corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal.

### Opsiwn 2: Llunio'r Ddeddfwriaeth

Bydd y trefniadau newydd yn cryfhau trefniadau presennol ar leoli gan gyflwyno atebolrwydd mwy ar awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd i sicrhau y caiff anghenion plant eu diwallu. Bydd newidiadau i reoliadau Cartrefi Plant yn codi safonau'r gweithle gan wneud y math hwn o ddarpariaeth yn un o ddewis. Bydd newidiadau i drefniadau'r comisiynydd cyfrifol yn safoni'r sefyllfa â Lloegr, gan egluro trefniadau sydd ar hyn o bryd yn destun anghydfod ac oedi yn narpariaeth gofal iechyd y plentyn. Bydd y newidiadau hefyd yn annog datblygu darpariaeth gwasanaeth yn lleol.

### Manteision

6. Bydd y newidiadau yn cyflwyno gwell atebolrwydd a chraffu ar leoliadau a wneir y tu allan i'r ardal awdurdod lleol a sicrhau mai anghenion iechyd ac addysgol a'r budd gorau yw'r prif bryder. Byddant yn gweithredu i godi safonau gweithlu'r cartrefi plant lle lleolir y plant â'r anghenion mwyaf arbenigol yn aml. Bydd newidiadau i drefniadau'r comisiynydd cyfrifol yn egluro'r trefniadau o ran cyfrifoldeb dros ddarpariaeth iechyd eilaidd blant a leolir y tu allan i ardal sydd ar hyn o bryd yn destun anghydfod rhwng BILlau/PCT yn aml yn arwain at oedi yn nhriniaeth y plentyn. Bydd yn cael gwared ar unrhyw gymhelliant ariannol i leoli plentyn y tu allan i ardal ac yn annog BILlau y ddatblygu gwasanaethau yn lleol i ddiwallu anghenion y boblogaeth a bydd yn sicrhau nad yw'r rheini sydd wedi bod yn y rheng flaen o ran datblygu gwasanaethau yn wynebu anfantais oherwydd nifer fawr o blant yn cael eu lleoli yn eu hardal.

### Costau

7. Mae ymgynghoriad wedi nodi ei bod yn debygol y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn ond credwn y bydd y rhain yn ymylol. Rhyddhawyd adnoddau ychwanegol i lywodraeth leol trwy Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2007/08 (£5.6 m) gan gydnabod pwysau ym meysydd gofal maeth a lleoliadau a nodwyd yn adroddiad yr Is-grwp Gwariant. Bydd rheoliadau yn gwneud newid o brosesau busnes a rheoli marchnata lleoliadau yn ofynnol ac yn y tymor hwy bydd yn arwain at arbedion. Mae swyddi dynodedig fel Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a Nyrsys arbenigol wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac fe'u hariennir gan awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd.

### Ymgynghoriad

### Gyda Rhanddeiliaid

8. Roedd y rheoliadau drafft yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 18 Medi 2006 a 13 Tachwedd 2006. Yn ogystal, cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori yn Llandrindod, Abertawe a Wrecsam. Mynychwyd y digwyddiad gan dros 300 o bobl o awdurdodau lleol (yn cynnwys aelodaeth a etholwyd), cyrff iechyd, cartrefi plant a'r sector gwirfoddol.

### Gyda'r Pwyllgor Pwnc

9. Hysbyswyd y rheoliadau hyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS 41(06), y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS (2)-17-06 (p) trwy eu rhestrau priodol o ddeddfwriaeth sydd ar ddod. Cawsant eu nodi ar gyfer craffu manwl yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 13 Rhagfyr a 18 Ionawr 2007 yn y drefn honno.

### Adolygiad

10. Bydd effaith y Rheoliadau yn amodol ar adolygiad polisi parhaus a'u monitro a'u harchwilio trwy ddulliau archwilio presennol fel yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

### Crynodeb

11. Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn cryfhau trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer lleoli plant ac adolygiad dilynol o achosion plant, gan sicrhau mai anghenion iechyd a lles ac addysg plant yw'r brif ystyriaeth mewn unrhyw benderfyniadau a wneir. Byddant yn gweithredu i godi safonau galwedigaethol mewn cartrefi plant lle lleolir y plant â'r anghenion mwyaf arbenigol yn aml. Bydd newidiadau i drefniadau'r comisiynydd cyfrifol yn egluro'r trefniadau o ran cyfrifoldeb dros ddarpariaeth iechyd eilaidd i blant a leolir y tu allan i'r sir.

## Towards a Stable Life and a Brighter Future

Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriadau ar Newidiadau i'r Rheoliadau sy'n Rheoli Iechyd a Lles Plant sy'n Derbyn Gofal

Cafwyd 63 o ymatebion i'r ddogfen ymgynghori ac amlinellir y prif bwyntiau a godwyd isod. Cyflwynodd rhai ymatebwyr ymateb annibynnol gan ddewis peidio ag ateb y cwestiynau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn yr amgylchiadau hyn gwnaed pob ymdrech i gysylltu ymatebion â chwestiynau penodol lle y bu hynny'n briodol. Lle nad oedd hyn yn bosibl ystyriwyd hanfod y fath ymatebion yn llawn a chawsant eu hychwanegu at y "pwyntiau ychwanegol". Mae'r rhifau yn y cromfachau ar ôl pob cwestiwn yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwnnw. Mae 2 ymateb, a gyrhaeddodd yn Gymraeg, wrthi'n cael eu cyfieithu a byddant yn cael eu cynnwys cyn gynted â phosibl.

Yn gyffredinol cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn. Croesawodd y rhan fwyaf o sefydliadau'r newidiadau gan gredu y byddent yn cynnig canlyniadau gwell i Blant mewn Gofal. Yr hyn na ddangosir yma, oherwydd fframwaith yr ymatebion, yw'r ffaith bod llawer o'r ymatebwyr wedi dangos diddordeb mewn annog eu sefydliadau i gymryd rhan fwy, a chafwyd cefnogaeth gan sefydliadau eraill i'r cynnydd mewn costau i'w busnes gan gredu y byddai'r costau cychwynnol yn arwain at arbedion yn y tymor hir. Gofynnodd sawl sefydliad am fwy o eglurder ynglyn â meysydd penodol a ddangosir o dan y penawdau perthnasol, ond yn gyffredinol croesawodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y newidiadau arfaethedig yn fawr.

### Cyffredinol

### C1 A yw egwyddor y canllawiau hyn yn eglur? (46)

Dywedodd 38 o'r ymatebwyr fod egwyddor y canllawiau hyn yn eglur, ond dywedodd 4 ymatebwr fod angen mwy o eglurder ynglyn â phwy y byddai'r newidiadau hyn yn berthnasol iddynt, a theimlodd 8 ymatebwr fod angen mwy o eglurder yn gyffredinol.

### C2 A yw'r newidiadau arfaethedig yn rhan o fframwaith y gall awdurdodau lleol a'u partneriaid statudol weithio'n unol ag ef? (39)

Dywedodd 31 o'r ymatebwyr y gallai awdurdodau lleol weithio o fewn y fframwaith penodedig. Dim ond 3 ymateb a nododd na ellid defnyddio'r fframwaith ond dywedodd 7 ymatebwr y gallai fod yn anodd rhoi'r fframwaith ar waith. Dymunai 6 ymatebwr gael mwy o eglurder ynglyn â'r fframwaith.

### C3 A fydd y newidiadau yn peri anawsterau na chawsant eu rhagweld o bosibl? (39)

Dywedodd 37 o'r ymatebwyr y byddai anawsterau na chawsant eu rhagweld. Roedd y prif anawsterau y disgwylient eu hwynebu yn ymwneud ag adnoddau. Nododd 13 o'r ymatebwyr bryder am ddiffyg cyllid a materion ariannol a dywedodd 22 ohonynt fod diffyg adnoddau, yn arbennig o ran deintyddiaeth, nyrsys arbenigol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Teimlodd 6 ymatebwr y byddai'r prosesau'n peri anawsterau.

### Pwyntiau Ychwanegol (29)

Unwaith eto, roedd prif themâu'r "Pwyntiau Ychwanegol" yn ymwneud ag adnoddau. Dywedodd 12 o'r ymatebwyr fod

angen cydnabod problemau yn ymwneud â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar ôl eu hasesu a'u hatgyfeirio a dywedodd 12 ohonynt fod problemau o ran capasiti i'w gweld trwy gydol y canllawiau, yn arbennig o ran llwyth gwaith nyrsys plant sy'n derbyn gofal a ffrydiau ariannu ar gyfer y gwaith hwn. Roedd 8 ymatebwr yn credu y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chyllid. Teimlodd 4 ymatebwr y dylai gofalwyr maeth fod wedi cael mwy o ystyriaeth yn y canllawiau hyn. Teimlodd 1 nad plant oedd canolbwynt y canllawiau hyn.

## Penodol

## Pennod 1: Rheoliadau Lleoli Plant (a Diwygiadau Amrywiol) 2007

### Adran 1 - Panel Lleoli tudalennau 12–17

C1 A yw gofynion y panel yn glir? (44)

Dywedodd 32 o'r ymatebwyr eu bod yn glir, ond dywedodd 11 o'r ymatebwyr fod angen mwy o eglurder am ofynion y panel o ran ei weithredu, ei roi ar waith, ei strwythur a'i atebolrwydd. Dim ond 4 ymatebwr oedd yn teimlo bod y gofynion yn aneglur.

C2 A yw'r cyfnod o 20 diwrnod y mae'n rhaid i banel ymgynnull oddi mewn iddo ar ôl lleoliad brys yn rhesymol? (43)

Dywedodd 19 o'r ymatebwyr fod y graddfeydd amser yn dderbyniol ond ychwanegodd 9 ymatebwr y byddai angen bod yn hyblyg o ran "ymgynnull" e.e. cyfarfodydd rhithwir a chyfarfod dros y ffôn. Dywedodd 12 o'r ymatebwyr fod y graddfeydd amser yn afresymol ac roedd 3 ymatebwr yn credu bod 10 diwrnod gwaith yn fwy rhesymol. Teimlodd un ymatebwr fod angen eglurhad pellach.

C3 A yw'r aelodaeth graidd ac uwch aelodau i'r panel a awgrymwyd yn eglur ac yn rhesymol? (38)

Dywedodd 23 o'r ymatebwyr eu bod yn eglur ac yn rhesymol, ac awgrymodd 16 o'r ymatebwyr y dylid ychwanegu at yr aelodaeth, ac y dylai uwch gynrychiolwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, asiantaethau maethu, sefydliadau gwirfoddol a nyrsys plant sy'n derbyn gofal gael eu cynrychioli ar y panel. Teimlodd 7 o bobl fod angen mwy o eglurder ynglyn â hyn a theimlodd 9 person y byddai lefel uchel aelodau'r panel yn ei gwneud yn anodd ymgynnull panel ar fyr rybudd.

C4 A yw gofynion adrodd ac atebolrwydd y panel yn eglur? (40)

Dywedodd 29 o'r ymatebwr eu bod yn credu bod gofynion adrodd y panel yn eglur a dywedodd 18 o'r ymatebwyr fod atebolrwydd y panel yn eglur. Roedd 10 o'r ymatebwyr yn credu bod gofynion adrodd y panel yn aneglur a dywedodd 8 o'r ymatebwyr fod atebolrwydd y panel yn aneglur.

C5 Bydd fydd yr effaith a'r goblygiadau ariannol ar eich busnes? (29)

Dywedodd 3 ymatebwr na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol i'w busnes. Teimlodd 11 o'r ymatebwyr y byddai'n effeithio ar eu busnes oherwydd yr angen i ddarparu staff ar lefelau uchel ac er mwyn gweinyddu system o'r fath. Teimlodd 10 o'r ymatebwyr y byddai'n effeithio'n ariannol arnynt am yr un rhesymau. Dywedodd 9 o'r ymatebwyr na allent fesur yr effeithiau ariannol na'r effeithiau busnes ymlaen llaw.

### Pwyntiau Ychwanegol (14)

Codwyd materion ynglyn â'r modd y mae hyn yn berthnasol i leoliadau presennol, y modd y gellid cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, capasiti a'r modd y gellid ystyried datganiadau AAA. Y thema fwyaf gan 6 ymatebwr oedd na ellid diwallu holl anghenion cymhleth plentyn mewn un lle weithiau. Roedd 2 ymatebwr yn dangos pwyll ynglyn â defnyddio'r CCSR oherwydd teimlent nad oedd yn rhoi digon o wybodaeth i'r panel. Teimlodd 1 ymatebwr nad oedd "y tu allan i'r ardal" yn golygu digon gan fod rhai ardaloedd yn fawr iawn a gellir lleoli plentyn 80 milltir i ffwrdd mewn un ardal, tra gall plentyn 10 milltir i ffwrdd mewn ardaloedd eraill fod y tu allan i'r ardal.

Adran 2 – Lleoliadau ac Asesiad Iechyd tudalennau 17-24

C1 A yw gofyn i'r awdurdodau cyfrifol hysbysu'r asiantaethau perthnasol o'r trefniadau lleoli o fewn 10 diwrnod gwaith i leoli'r plentyn yn rhesymol? Os nad yw'n rhesymol, beth fyddai'n gyfnod amser rhesymol yn eich barn chi? (42)

Dywedodd 29 o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y graddfeydd amser yn rhesymol, ond dywedodd 5 ohonynt eu bod yn teimlo y byddai hyd at 5 diwrnod gwaith yn fwy realistig er mwyn i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer cwblhau asesiadau iechyd fod yn ymarferol. Teimlodd 3 ymatebwr nad oedd y cyfnod hwn yn ymarferol. Awgrymodd 1 y byddai 3 diwrnod gwaith yn briodol ac awgrymodd 1 y dylid pennu cyfnod o 15 diwrnod gwaith.

C2 A yw'r trefniadau o ran trosglwyddo cofnodion iechyd y plentyn a chynnwys gweithwyr proffesiynol amrywiol yn eglur ac yn rhesymol? (40)

Dywedodd 21 o'r ymatebwyr fod hyn yn rhesymol, ond dywedodd 13 o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y trefniadau yn aneglur. Dywedodd 9 ymatebwr na ddylai CNS Plant sy'n Derbyn Gofal fod yn gyfrifol am drosglwyddo cofnodion meddygon teulu gan fod gan y meddygon teulu system gadarn ar waith eisoes a dim ond ymgysylltu â hwy y gallai'r CNS ei wneud.

C3 A fydd ymestyn cyfrifoldeb am gynnal asesiadau iechyd cychwynnol i nyrs gofrestredig yn ddigon i ddiogelu anghenion iechyd plant sy'n derbyn gofal? Os na, pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen? (39)

Dywedodd 30 o'r ymatebwyr fod ymestyn cyfrifoldebau am gynnal asesiadau iechyd cychwynnol i CNS yn beth da. Nododd 6 ymatebwr faterion ynglyn â chapasiti y nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal a'i llwyth achosion. Dywedodd 10 o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo na allai CNS gyflawni asesiadau arbenigol yn briodol (h.y. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), dim ond eu cyfeirio at arbenigwyr, ac yn aml ni allant sicrhau y caiff asesiadau arbenigol eu cynnal na sicrhau y caiff anghenion eu diwallu. Nododd 9 ymatebwr fod asesiadau iechyd o dan arweiniad nyrsys yn fwy poblogaidd ymhlith plant sy'n derbyn gofal gan fod llawer ohonynt yn teimlo nad oes angen iddynt weld meddyg pan nad ydynt yn sâl. Dim ond 1 ymatebwr oedd yn teimlo bod angen mesurau diogelu. Gofynnodd 9 ymatebwr am eglurhad ynghylch rôl yr RMP, yn arbennig ynglyn â'u cyfrifoldeb am y CNS. Teimlodd 1 y dylid rhoi dewis i'r plentyn ynglyn â phwy sy'n cynnal ei asesiad iechyd.

C4 A yw'r cyfnod o 14 diwrnod ar gyfer sicrhau bod gan y plentyn ddeintydd a threfnu asesiad deintydd iddo yn rhesymol? Os na, beth fyddai'n gyfnod amser rhesymol yn eich barn chi? (42)

Nododd 24 o'r ymatebwyr fod y prinder mawr o gyfleusterau deintyddol yng Nghymru yn golygu y byddai cael asesiad deintyddol o fewn 14 diwrnod yn her, ond awgrymodd 7 ymatebwr y byddai cofrestru o fewn 14 diwrnod yn bosibl. Awgrymodd 3 ymatebwr y dylid creu system garlam i alluogi plant sy'n derbyn gofal i gael eu hasesiad deintyddol cychwynnol. Dywedodd 8 eu bod yn teimlo bod y cyfnodau amser yn rhesymol ond awgrymodd 6 y dylid cael cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer cofrestru plant sy'n derbyn gofal, gan gydnabod y byddai cael apwyntiad yn cymryd mwy o amser.

C5 A yw'r gofyniad i gofrestru'r plentyn gyda meddyg teulu o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad lleoli yn rhesymol? Os na, beth fyddai'n gyfnod amser rhesymol yn eich barn chi? A ddylid pennu terfyn amser ar gofrestru dros dro gyda meddyg teulu? Os felly, beth ddylai hyn fod? (41)

Dywedodd 33 o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y cyfnod amser yn rhesymol, ond dywedodd 2 ymatebwr fod 10 diwrnod yn rhesymol. Teimlodd 12 o'r ymatebwyr nad oedd cofrestru dros dro gyda meddyg teulu yn addas i blant sy'n derbyn gofal, a dywedodd 16 o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylid cofrestru plant sy'n derbyn gofal yn barhaol gyda meddyg teulu lleol o fewn 3 mis fan bellaf. Teimlodd 4 ymatebwr fod cofrestru dros dro am gyfnodau byr yn dderbyniol.

C6 A fydd y gofyniad ar BILlau i benodi person penodedig i gydgysylltu'r gwasanaethau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn gwella iechyd y plant a'r bobl ifanc hyn? Beth yw goblygiadau ymarferol y cynnig hwn gan gofio bod hwn yn un o weithredoedd craidd y Fframwaith Iechyd Cenedlaethol hefyd? (38)

Dywedodd 28 o'r ymatebwyr y dylai arwain at welliannau, ond dywedodd 7 ymatebwr nad oedd hyn yn ddigonol. Dywedodd 8 ymatebwr fod angen egluro swyddogaeth a diben y rôl. Dywedodd 15 o bobl y byddai angen neilltuo cyllideb er mwyn i hyn ddigwydd.

C7 Bydd fydd yr effaith a'r goblygiadau ariannol ar eich busnes? (29)

Dywedodd 19 o'r ymatebwyr fod goblygiadau ariannol yn anochel, gan gynnwys nyrs plant sy'n derbyn gofal, amser pediatregydd, cymorth gweinyddol, gwasanaethau deintyddol cymunedol, cymorth ac ymyrraeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Dywedodd 3 ymatebwr y byddai'r effaith yn cael ei gweld o ran yr amser sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau newydd. Dywedodd 2 ymatebwr mai ychydig iawn fyddai'r gost i'w busnes, os o gwbl, ac ni allai 4 ymatebwr fesur yr effaith ar hyn o bryd.

**Pwyntiau Ychwanegol (16)**

Dywedodd 5 ymatebwr fod yn rhaid i bolisi fynd i'r afael â'r angen i ddatblygu capasiti a rheoli'r farchnad yn well, a dywedodd 3 ohonynt fod lefelau staffio presennol yn annigonol. Croesawodd 4 ymatebwr y cynigion i gael rhestr o blant sy'n derbyn gofal gan y BILl ond gwrthwynebodd 4 ymatebwr yn gryf. Gofynnodd 2 ymatebwr am eglurder o deitlau ar gyfer y CNS. Nid oedd 1 ymatebwr yn credu bod angen i blant iach gael asesiad iechyd.

**Adran 3 – Adolygu Achosion Plant - Sefydliadau Adolygu Annibynnol (SAAau) tudalennau 25-26**

C1 A yw dyletswyddau estynedig yr SAAau yn eglur o ran materion ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu hystyried wrth adolygu achos y plentyn, er enghraifft; ymgynghori â "gweithiwr cyswllt" y cartref plant; er mwyn sicrhau y caiff cofnodion iechyd ac addysg eu trosglwyddo ac ati? (42)

Roedd 30 o'r ymatebwyr yn credu bod hyn yn eithaf eglur, ond gofynnodd 19 am fwy o eglurder ynglyn â rôl yr SAA megis y ffordd y maent yn monitro achosion o drosglwyddo cofnodion meddyg teulu, sut y maent yn gweithio gyda'r Gweithiwr Cyswllt a pha bwerau a fyddai ganddynt mewn gwirionedd. Dim ond 3 ymatebwr oedd yn teimlo bod y rôl yn aneglur. Teimlodd 2 ymatebwr y dylai'r SAA fod yn fwy annibynnol.

C2 Beth fydd yr effaith a'r goblygiadau ariannol ar eich busnes? (19)

Roedd 8 ymatebwr yn credu y byddai effeithiau ariannol yn sgîl hyn, ond roedd 7 ymatebwr yn credu na fyddai'n costio dim i'w busnes. Roedd 3 ymatebwr yn ansicr o ran sut y byddai'r costau'n effeithio arnynt.

**Pwyntiau Ychwanegol (0)**

**Pennod 2 – Rheoliadau Cartrefi Plant (Diwygio) (Cymru) 2007**

**Pennod 2 - Cartrefi Plant tudalennau 52-57**

C1 A yw 01/11/07 yn derfyn amser rhesymol y bydd yn rhaid i bob rheolwr presennol a rheolwr newydd feddu ar y cymwysterau perthnasol (a bod wedi cofrestru â'r cyngor gofal)? A ddylai'r terfyn amser fod yn hwyrach ar gyfer rheolwyr Cartrefi Plant presennol?(18)

Teimlodd 16 o'r ymatebwyr fod hyn yn rhesymol. Teimlodd 2 ymatebwr ei fod yn afresymol ac y dylid caniatáu estyniad o 12 mis.

C2 A yw gofyn i bob aelod o staff gofrestru â'r cyngor gofal erbyn 01/07/07 yn ymarferol? (16)

Dywedodd 11 fod hyn yn rhesymol, ond teimlodd 4 ymatebwr na fyddai hyn yn bosibl. Awgrymmodd 1 ymatebwr y byddai mis Mai 2008 yn derfyn amser mwy synhwyrol o bosibl fel bod yn rheolwyr yn gymwysedig cyn eu staff.

C3 A yw caniatau i bob aelod o staff presennol gymhwyso o fewn 3 mlynedd (erbyn mis Gorffennaf 2010) yn rhy hir, a ddylai gael ei newid i 2 flynedd? (17)

Dywedodd 12 o'r ymatebwyr fod 3 mlynedd yn rhesymol, dywedodd 4 ymatebwr fod 2 flynedd yn gyraeddadwy. Teimlodd 4 ymatebwr y gallai cyfnod o dair blynedd hyd yn oed fod yn amhosibl gyda throsiant mor uchel. Dywedodd 1 ymatebwr fod

tair blynedd yn gyfnod rhy hir.

C4 A yw'r trothwy arfaethedig o 90% o staff gofal sy'n gweithio yn y cartrefi plant yn cael contractau parhaol yn rhesymol ac yn gyraeddadwy? (13)

Dywedodd 9 ymatebwr eu bod yn credu bod hyn yn rhesymol ond dywedodd 5 ymatebwr fod anawsterau ehangach yn gysylltiedig â hyn. Roedd 1 ymatebwr yn credu bod 97% yn drothwy rhesymol.

C5 A yw'r gofynion arfaethedig newydd ar gyfer hyfforddi yn eglur? A fyddant yn arwain at ddealltwriaeth well o'r cymwysterau sydd eu hangen ar reolwyr gwasanaethau preswyl i blant a phobl ifanc? (10)

Dywedodd 9 ymatebwr eu bod yn credu fod hyn yn rhesymol ond roedd 1 ymatebwr yn credu y gallai beri anawsterau.

C6 A fydd cyflwyno categori hyfforddai/cymhwyso ar gyfer cofrestru yn arwain at ddilyniant gyrfa mwy eglur ar gyfer staff newydd ac yn cyfrannu at y gwaith o wella safonau a sefydlogrwydd? (11)

Dywedodd 9 ymatebwr y byddai'n gwneud hynny, nid oedd 1 ymatebwr yn siwr ac roedd ymatebwr arall yn credu na fyddai hyn yn bosibl. Gofynnodd 1 ymatebwr am fwy o eglurder ynglyn â dyletswyddau hyfforddeion.

C7 Beth yw'r prif rwystrau ar gyfer cyflwyno'r newidiadau i ofynion cymwysterau? (14)

Dywedodd 9 ymatebwr y byddai angen hyfforddiant a chyfleusterau hyfforddi. Dywedodd 5 ymatebwr y byddai'r trosiant staff uchel yn rhwystr a nododd 3 ymatebwr fod angen staff dros dro nad ydynt yn cael eu cyflogi digon i gael hyfforddiant.

C8 A yw'r newidiadau arfaethedig i'r rhestr o gymwysterau perthnasol yn diogelu safonau cymhwysedd y rhai sy'n rheoli gwasanaethau gofal plant preswyl? (15)

Dywedodd 12 o'r ymatebwyr eu bod yn gwneud hynny, ond teimlodd 2 ymatebwr fod angen cynnwys profiad blaenorol a chymwysterau rheolwyr presennol a dywedodd 1 ymatebwr y byddai angen mesur profiad blaenorol yn well. Roedd 1 ymatebwr yn credu y dylid cynnwys cymwysterau cyfwerth a gydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru.

C9 A yw'r holl gymwysterau blaenorol sydd wedi eu rhestru'n briodol i'w cynnwys yn y rhestr ddiwygiedig o gymwysterau perthnasol? (11)

Dywedodd 8 ymatebwr eu bod yn briodol, ond dywedodd 3 ymatebwr fod cymhwyso 80% o staff i'r lefelau hynny yn amhosibl. Teimlodd 1 ymatebwr y dylid diystyru cymwysterau sy'n dyddio cyn 1971

C10 A ddylai staff â chyfrifoldebau dirprwyo feddu ar gymhwyster gofal lefel 4 fel yr argymhellir ar gyfer rheolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn rheoli gwasanaethau yn ddiogel ac i gynorthwyo â'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth? (10)

Dywedodd 9 ymatebwr y dylent feddu ar y cymhwyster hwnnw. Dywedodd 1 ymatebwr y dylent feddu ar gymhwyster lefel 3 ac y dylent fod yn gwneud cynnydd tuag at lefel 4.

Q11 A ydych yn cytuno â'r cynnig i benodi gweithiwr cyswllt erbyn mis Gorffennaf 2007? A yw hyn yn gyraeddadwy? (17)

Roedd 10 ymatebwr yn credu bod hyn yn rhesymol, ond dywedodd 8 ymatebwr fod angen mwy o eglurder ynglyn â rôl y gweithiwr cyswllt. Dim ond 1 ymatebwr oedd yn credu nad oedd hyn yn bosibl. Nododd 1 ymatebwr ei bod am wybod i ba raddau y gallai'r bobl ifanc ddewis eu gweithiwr cyswllt. Nododd 2 ymatebwr eu bod yn poeni y gallai hyn effeithio ar awdurdod staff eraill sydd â pherthynas dda â'r plentyn.

Q12 Beth fydd yr effaith a'r goblygiadau ariannol ar eich busnes? (11)

Dywedodd 11 o'r ymatebwyr y byddai goblygiadau ariannol mawr i'w busnes a nododd un ymatebwr o Ofal Plant Landsker y gallai'r rheoliadau arwain at gau ei Gartrefi Plant.

**Pwyntiau Ychwanegol (7)**

Mynegodd 1 ymatebwr bryderon yn ymwneud ag adnoddau dynol: anawsterau o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol; materion yn ymwneud â chynorthwyo staff nad oedd ganddynt bellach y cymwysterau digonol a chynnig opsiynau iddynt; diffyg aseswyr NVQ; anawsterau o ran hyfforddi staff nos a'r angen i rannu hyfforddiant ar draws sectorau. Dywedodd 1 ymatebwr na fyddai'r terfynau amser yn ymarferol yn gyffredinol o bosibl. Roedd un am wybod sut yr oedd unedau gofal seibiant yn rhan o'r rheoliadau hyn. Croesawodd 1 ymatebwr y gofyniad am 80% o staff cymwysedig ond dywedodd 2 ymatebwr na fyddai hynny'n bosibl. Roedd 1 ymatebwr am wybod a ddylai cartrefi plant sy'n cynnig triniaeth gofrestru â Chomisiwn Iechyd Cymru. Teimlodd 1 ymatebwr y dylid rhoi pwyslais ar ofal maeth. Roedd 1 ymatebwr yn credu bod disgwyl i'r nyrs plant sy'n derbyn gofal oruchwylio'r gwaith o gofrestru â Meddyg Teulu a Deintydd yn afresymol, ac mai'r Cartref Plant neu'r Gofalwr Maeth ddylai fod yn gyfrifol am hynny.

**Pennod 3 – Hyrwyddo Addysg tudalennau 68-71**

C1 A fydd y gofyniad ar awdurdodau lleol i benodi ymarferwr addysg arbenigol (y Cydgysylltydd Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal) er mwyn cydgysylltu cynllun addysg y plentyn a diwallu anghenion addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal, yn sicrhau y caiff anghenion addysgol y plant a'r bobl ifanc hyn eu diwallu yn unol ag Adran 52 o Ddeddf Plant 2004? (32)

Teimlodd 29 o'r ymatebwyr y byddai hyn yn helpu, ond dywedodd 9 ymatebwr fod angen gwneud mwy. Dywedodd 8 ymatebwr fod problemau yn ymwneud ag ariannu a chapasiti o ran y rôl hon.

C2 A yw rolau a chyfrifoldebau'r swydd enwebedig hon yn eglur? A yw'r gydberthynas ag ymarferwyr allweddol eraill yn eglur? (25)

Dywedodd 17 ymatebwr fod hyn yn eglur, ond dywedodd 6 ymatebwr eu bod yn teimlo bod angen eglurhad o ran y swydd hon, yn enwedig o ran atebolrwydd, lefelau cymwysterau a rhyngberthynas rhwng gwasanaethau.

C3 A yw'r terfyn amser o 10 diwrnod gwaith i leoli lle mae'n rhaid i awdurdodau cyfrifol hysbysu'r awdurdodau addysg perthnasol o drefniadau i leoli'r plentyn yn rhesymol? Os na, beth fyddai terfyn amser rhesymol yn eich barn chi? (24)

Dywedodd 21 ymatebwr fod hyn yn rhesymol, ond dywedodd 3 ohonynt y dylid gwneud eithriadau yn ystod gwyliau'r ysgol ac mewn argyfyngau gwirioneddol. Dywedodd 3 ymatebwr fod 5 diwrnod yn fwy rhesymol ac roedd 1 yn credu bod 15 diwrnod yn fwy addas.

C4 A yw'r trefniadau o ran trosglwyddo cofnodion addysg y plentyn a rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol perthnasol yn eglur ac yn rhesymol? (23)

Dywedodd 14 ymatebwr eu bod yn eglur ac yn rhesymol, ond roedd 9 am gael mwy o eglurder o ran y mater hwn

C5 Bydd fydd yr effaith a'r goblygiadau ariannol ar eich busnes? (16)

Dywedodd 12 ymatebwr y bydd effaith ariannol ac nid oedd 3 yn siwr. Dywedodd 1 ymatebwr na fyddai effaith am eu bod eisoes yn cyflogi person o'r fath.

**Pwyntiau Ychwanegol (8)**

Roedd 1 ymatebwr yn teimlo bod y terfyn amser o 20 diwrnod ar gyfer cwblhau'r PEP yn rhy fyr i alluogi'r cydgysylltydd addysgol plant sy'n derbyn gofal i feithrin cydberthynas ddigon cryf â'r plant sy'n derbyn gofal i gael syniad digon da o'r hyn sydd ei angen arnynt. Roedd 1 ymatebwr yn teimlo bod angen fframweithiau adrodd cliriach i sicrhau bod rôl rhianta corfforaethol yn cael ei datblygu. Dywedodd 1 ymatebwr fod angen ailadrodd y gofynion ym Mhapur Gwyrdd Lloegr i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion dderbyn Plant sy'n Derbyn Gofal hyd yn oed pan fyddant yn llawn. Dywedodd 1 ymatebwr ar ôl ELWa bod angen egluro rôl yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Dywedodd 1 ymatebwr y dylai'r CSSR a'r panel gefnogi'r angen i sicrhau argaeledd lleoliad addysgol. Dywedodd 1 fod angen system symlach i adennill costau AAA. Awgrymodd 1 y dylai Asiantaethau Maethu Annibynnol gyflogi cydgysylltydd meddygol i gyd-drafod â'r cydgysylltydd

plant sy'n derbyn gofal ac Awdurdodau Lleol. Dywedodd 4 fod angen meithrin a phwysleisio rôl gofalwyr maeth. Cododd 1 ymatebwr y mater o ran sut y gellir cynnwys y rhai sy'n gadael gofal. Teimlodd 3 ymatebwr y dylid pwysleisio rôl yr ysgol a'r penaethiaid.

### Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2007

### Pennod 4 - Comisiynydd Cyfrifol tudalennau 73-82

C1 A ydych yn cytuno ag egwyddor y newidadau h.y., bod cyfrifoldeb ac adnoddau costau gofal eilaidd yn aros gyda'r BILl cychwynnol? (30)

Croesawodd 26 y newidiadau hyn, ond dywedodd 12 nad oeddent yn gweld sut y byddent yn gweithio yn ymarferol, gan ddyfynnu dryswch ariannol o ran sut y byddai'r BILl cychwynnol yn talu am y costau gofal eilaidd.

C2 A all BILlau weithio o fewn y fframwaith hwn? (26)

Dywedodd 11 y gallant wneud hynny. Roedd 17 yn credu bod anawsterau yn y fframwaith yr oedd angen eu datrys cyn y gallai BILlau weithio yn unol ag ef.

C3 A oes grwpiau eraill o blant y dyiai'r trefniadau newydd fod yn gymwys iddynt? (16)

Dywedodd 14 fod grwpiau eraill, ac awgrymodd nifer Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches, Plant teithwyr, Plant mewn trefniadau maethu preifat, plant i'w mabwysiadu, plant wedi'u lleoli yn barhaol, troseddwyr ifanc, pobl ifanc hyd at 25 oed, plant anabl a phlant nad ydynt mewn gofal ond sydd ag anghenion cymhleth a pharhaus mewn lleoliad y tu allan i'r sir nad yw'n cael ei ariannu gan Gomisiwn Iechyd Cymru. Roedd 3 yn teimlo na ddylid cynnwys plant eraill.

C4 Nodwyd cynigion i gytuno ar anghenion iechyd gofal eilaidd newydd (ac anghenion iechyd gofal trydyddol pan fo'n briodol). A ydych o'r farn bod y rhain yn rhesymol, yn gyraeddadwy ac yn ymarferol? (16)

Cytunodd 9 ymatebwr, ond dywedodd 6 ohonynt y byddai trefniadau yn amrywio o ardal i ardal. Anghytunodd 1, ond roedd 8 ohonynt am gael mwy o eglurder o ran y materion

C5 A yw'r trefniadau ar gyfer delio â phlant sy'n cael eu lleoli yn Lloegr yn eglur? A oes angen esbonio unrhyw faterion? (18)

Dywedodd 5 eu bod yn eglur, dywedodd 6 nad oeddent yn eglur. Roedd 9 am gael mwy o eglurder yn y cynigion, yn enwedig sut y bydd y newidiadau i'r rheoliadau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd yn Lloegr yn effeithio ar leoliadau.

C6 A ddylai'r trefniadau newydd fod yn gymwys i blant sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal cyn y dyddiad cychwyn - Gorffennaf 2007? Os felly, beth yw'r effaith debygol ar eich gwasanaeth/adnoddau? (15)

Dywedodd 5 y dylai hynny fod yn wir, dywedodd 6 y dylid glynu wrth fis Gorffennaf 2007 fel dyddiad. Nid oedd 4 ymatebwr am i'r rheoliadau fod yn gymwys yn ôl-weithredol. Roedd 1 am i fwy o waith ymchwil gael ei wneud.

C7 A fydd y newidiadau yn peri anawsterau nas rhagwelwyd o bosibl? Os felly, beth yw'r rhain a sut y gellid eu goresgyn? (14)

Dywedodd 13 y byddant yn peri anawsterau, a nododd 5 fod arian yn broblem. Credai 1 na allent ddweud ymlaen llaw.

C8 Beth fydd yr effaith a'r goblygiadau ariannol ar eich busnes? (12)

Dywedodd 7 y byddai goblygiadau ariannol a dywedodd 7 y byddai effaith fawr. Roedd 1 yn ansicr.

### Pwyntiau Ychwanegol (5)

Dywedodd 2 fod materion o ran capasiti, hyfforddiant ar y cyd a materion meddygol parhaus fel hysbysu a gweinyddu

meddyginiaeth. Teimlai 1 fod y terfynau amser ar gyfer datrys anghydfodau comisiynu yn rhy hir. Roedd 1 yn poeni am ddiogelu plant. Teimlai 1 y gallai hwn droi yn ymarfer adennill costau. Teimlai 1 y dylid pwysleisio rôl Comisiwn Iechyd Cymru.

Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn

- Adran Addysg Blaenau Gwent
- Amicus/Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd
- Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Caerffili
- Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf
- Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Lleol Conwy
- Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful
- Bwrdd Iechyd Lleol Powys
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin
- Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol
- CNS Plant sy'n Derbyn Gofal Casnewydd
- CNS Plant sy'n Derbyn Gofal Sir Fynwy
- Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymru
- Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru Gyfan
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Dinas a Sir Abertawe
- Fforwm Gweithwyr Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal Gogledd Cymru
- Fforwm Plant sy'n Derbyn Gofal Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Foster Care Associates Ltd, rhanbarthau Cymru
- Gofal Llwybr, Gwasanaethau Maethu Annibynnol
- Gofal Plant Landsker
- Grwp CAMHS Arbenigol Gogledd Cymru (Plant sy'n Derbyn Gofal)
- Grwp Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Cymdeithasol Blaenau Gwent
- Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Amddiffyn Plant a Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd
- Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
- Gwasanaethau Plant Caerdydd
- Gwasanaethau Plant Caerffili
- Gwasanaethau Plant Castell-nedd Port Talbot
- Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf
- NCH Cymru
- NSPCC Cymru
- Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Sir y Fflint
- Plant yng Nghymru
- Prif Weithredwr Byrddau Iechyd Lleol Cymru Gyfan
- Prospects for Young People

- Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal y DU
- Rhwydwaith Maethu Cymru
- Tîm Iechyd Plant yn Gyntaf Caerdydd
- Tîm Plant yn Gyntaf (Addysg) Cyngor Bro Morgannwg
- Voices From Care Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin
- Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd GIG Gwent
- Yr FCA